# ATODLEN 10

# YMCHWILIAD Y COMISIYNYDD I FETHIANT I GYDYMFFURFIO Â SAFONAU ETC

## RHAN 1

## CYFFREDINOL

*Cyflwyniad*

1 Mae'r Atodlen hon yn gymwys i ymchwiliadau o dan adran 71.

*Cylch gorchwyl*

2 (1) Cyn cynnal ymchwiliad, rhaid i'r Comisiynydd baratoi cylch gorchwyl yr ymchwiliad.

(2) Rhaid i'r cylch gorchwyl bennu—

(a) y person yr ymchwilir iddo ("D"),

(b) y methiant a amheuir i gydymffurfio â gofyniad perthnasol.

(3) Cyn setlo'r cylch gorchwyl, rhaid i'r Comisiynydd—

(a) rhoi hysbysiad am y cylch gorchwyl arfaethedig—

(i) i D, a

(ii) i unrhyw berson arall a chanddo fuddiant,

(b) rhoi cyfle i bob person y rhoddir hysbysiad iddo ynghylch y cylch gorchwyl arfaethedig i wneud sylwadau ynghylch y cylch gorchwyl arfaethedig, ac

(c) ystyried unrhyw sylwadau a wneir.

(4) Ar ôl setlo'r cylch gorchwyl (ac yntau wedi cydymffurfio ag is-baragraff (3)), rhaid i'r Comisiynydd—

(a) cyhoeddi cylch gorchwyl yr ymchwiliad mewn modd sy'n debygol, yn nhyb y Comisiynydd, o ddwyn yr ymchwiliad i sylw personau y mae a wnelo'r ymchwiliad â hwy neu bersonau sy'n debygol o fod yn bersonau a chanddynt fuddiant ynddo, a

(b) hysbysu'r canlynol am y cylch gorchwyl—

(i) D, a

(ii) unrhyw berson arall a chanddo fuddiant.

(5) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i unrhyw newid yn y cylch gorchwyl fel y byddai'r paragraff yn gymwys pe byddai'r newid yn y cylch gorchwyl yn gyfystyr â pharatoi'r cylch gorchwyl hwnnw.

*Sylwadau*

3 (1) Rhaid i'r Comisiynydd wneud trefniadau ar gyfer rhoi cyfle i bersonau i wneud sylwadau mewn perthynas ag ymchwiliadau.

(2) Rhaid i'r trefniadau roi cyfle i'r personau canlynol i wneud sylwadau yn ystod ymchwiliad—

(a) D, a

(b) unrhyw berson arall a chanddo fuddiant.

(3) Caiff trefniadau o dan y paragraff hwn gynnwys, ymhlith pethau eraill, drefniadau ar gyfer sylwadau llafar.

4 (1) Rhaid i'r Comisiynydd ystyried sylwadau a wneir mewn perthynas ag ymchwiliad—

(a) gan D, neu

(b) gan gynghorydd cyfreithiol sy'n gweithredu ar ran D.

(2) Rhaid i'r Comisiynydd ystyried sylwadau a wneir mewn perthynas ag ymchwiliad gan unrhyw berson arall onid yw'n briodol, yn nhyb y Comisiynydd, i wrthod gwneud hynny.

(3) Os yw'r Comisiynydd yn gwrthod ystyried sylwadau a wneir mewn perthynas ag ymchwiliad, rhaid iddo roi hysbysiad ysgrifenedig am y canlynol i'r person a wnaeth y sylwadau—

(a) y penderfyniad i wrthod ystyried y sylwadau, a

(b) y rhesymau dros y penderfyniad.

(4) Yn y paragraff hwn ystyr "cynghorydd cyfreithiol" yw—

(a) person sydd, at ddibenion Deddf y Gwasanaethau Cyfreithiol 2007, yn berson awdurdodedig, neu'n gyfreithiwr Ewropeaidd sy'n berson esempt yn rhinwedd paragraff 7 o Atodlen 3 i'r Ddeddf honno, mewn perthynas â gweithgaredd sy'n golygu arfer hawl i ymddangos mewn achos neu ymladd achos (o fewn ystyr y Ddeddf honno), neu

(b) adfocad neu gyfreithiwr yn yr Alban.